



Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Atodiad 2: Cydsyniadau Eilaidd a Chysylltiedig



Atodiad 2: Cydsyniadau Eilaidd a Chysylltiedig

- 2.1. I leihau nifer y ceisiadau ar wahân sy’n ofynnol ar gyfer cynllun DNS, gellir cyflwyno rhai ceisiadau cysylltiedig am drwyddedau, gorchmynion, hysbysiadau a chydsyniadau i Weinidogion Cymru ar yr un pryd â chais DNS.
- 2.2. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu galw cydsyniadau eilaidd i mewn os ydynt o’r farn eu bod yn gysylltiedig â chais DNS, ac nid yw’r datblygwr eisoes wedi’u cyflwyno ochr yn ochr â’r prif gais.
- 2.3. Gallai hyn fod yn berthnasol i gydsyniadau heb eu penderfynu y cyflwynwyd cais amdanynt eisoes i’r awdurdod cydsynio arferol, a’r rhai hynny nad ydynt eto wedi cael eu cyflwyno i unrhyw awdurdod.

Cyngor Cyn-ymgeisio

- 2.4. Dylai ymgynghoriad cyn-ymgeisio gynnwys y cyrff hynny y bwriedir ymgynghori â nhw ynglŷn ag unrhyw gais am gydsyniad eilaidd. Mae’n bosibl y bydd ymgynghoreion gwahanol ar gyfer cydsyniadau eilaidd, felly dylai datblygwyr roi sylw arbennig i’r canllawiau cysylltiedig ar gyfer pob math o gais i amlygu’r ymgynghoreion perthnasol.
- 2.5. Mae’r cydsyniadau eilaidd perthnasol fel a ganlyn:

Deddfwriaeth	Cydsyniad
Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 - Adran 2	Rheoli gwaith sy’n effeithio ar henebion cofrestredig, rhoi cydsyniad henebion cofrestredig.
Deddf Tiroedd Comin 2006 - Adran 38	Adrannau 16 a 17 – cyfnewid tir comin; Adran 38 – gwaith ar dir comin.
Deddf Priffyrdd 1980 - Adran 178	Cyfngiad ar osod rheiliau, trawstiau ac ati dros briffyrdd (cydsyniad).
Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 - Adrannau 4, 13 a 17	Adran 4 – cais am gydsyniad sylweddau peryglus; Adran 13 – ceisiadau am gydsyniad heb amod ynghlwm wrth gydsyniad blaenorol; Adran 17 – cais i barhau â chydsyniad ar gyfer newid rheolaeth tir.
Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 - Adrannau 8 a 74	Adran 8 – awdurdodi gwaith, cydsyniad adeilad rhestredig; Adran 74 – rheoli dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth.
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 - Adrannau 57, 247, 248 a 251	Adran 57 – angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad Adran 247 – cau neu wyro priffordd; Adran 248 – priffyrdd sy’n croesi neu’n ymuno â llwybr priffordd newydd arfaethedig Adran 251 – diddymu hawliau tramwy dros dir a ddelir at ddibenion cynllunio

Cydsyniadau nad ydynt yn eilaidd

- 2.6. Yn gynnar yn ystod y broses, dylai ymgeiswyr ystyried a oes angen trwyddedau/cydsyniadau gan CNC neu gyrff eraill, ar wahân i'r broses DNS. Dylai ymgeiswyr geisio cyflwyno cais am unrhyw gydsyniadau cysylltiedig ar yr un pryd â'r cais DNS.

Cydsyniadau Cysylltiedig

Gwaith sy'n ymwneud â llinellau trydan uwchben

- 2.7. Mae newidiadau a wnaed i'r gyfundrefn DNS yn 2019 yn ychwanegu mwy o gydsyniadau at y system DNS. Mae gosod llinellau trydan uwchben sydd â foltedd o 132KV neu lai, ac sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu datganoledig yng Nghymru, yn cael ei ystyried yn rhan o'r gyfundrefn DNS bellach.
- 2.8. Mae'n rhaid i geisiadau am linellau trydan uwchben ddisgrifio'r hyd a'r foltedd, a chynnwys datganiad sy'n nodi p'un a yw'r holl fforddfreintiau angenrheidiol wedi cael eu cytuno â pherchenogion a meddianwyr y tir y bydd y llinell yn ei groesi.